



## SWYDD DDISGRIFIAD

<b>TEITL Y SWYDD:</b>	<b>Cydlynnydd Datblygu'r Cymdeithasau</b>
<b>RHEOLWR LLINELL:</b>	Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwyr
<b>CYFLOG:</b>	Gradd Cydlynnydd UMAber
<b>ORIAU:</b>	Llawm amser, oriau blynyddol, i'w gweithio'n hyblyg wedi trafodaeth â'r rheolwr llinell.

**DYDDIAD A YSGRIFENNWYD:** 31 Ionawr 2019

### DIBEN Y RÔL

Hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr mewn cymdeithasau, at ddibenion tyfu cymunedau o bobl sy'n rhannu'r un diddordebau, datblygu sgiliau trosglwyddadwy, a darparu cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i aelodau. Gweinyddu a chynorthwyo cymdeithasau i ddatblygu a gweithredu'n gynaliadwy ac yn effeithiol.

### DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

#### 1. Cymdeithasau

- Rhoi cyfle i fyfyrwyr greu ac ymuno â grwpiau o bobl sy'n rhannu'r un diddordebau â nhw
- Cynorthwyo â sefydlu a chynnal grwpiau o fyfyrwyr sydd â diddordebau nad ydynt yn perthyn i chwaraeon
- Gweithio gyda chydweithwyr i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer grwpiau myfyrwyr ar draws yr aelodaeth, yn enwedig yn ystod adegau allweddol y flwyddyn, fel y cyfnod sefydlu ac ail wythnos y glas
- Sicrhau bod pob grŵp myfyrwyr sydd ddim yn ymwneud â chwaraeon yn gweithredu'n unol â pholisïau a gwerthoedd UMAber, gan gynnwys yn benodol y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a diogelwch
- Sicrhau bod gan gymdeithasau yswiriant priodol ac y caiff prosesau a pholisïau cysylltiedig eu dilyn i warchod UMAber a'i aelodau parthed gweithgareddau'r grwpiau myfyrwyr
- Cynnal cronfa ddata effeithiol o'r aelodaeth, gan adrodd yn ôl ar lefelau cyfranogaeth
- Gweithio gyda chydweithwyr yn adran reoli cyfleusterau'r Brifysgol i ddarparu grwpiau myfyrwyr â'r cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer cynnal eu gweithgareddau

- Bod yn eiriolwr ar ran TîmAber a hyrwyddo cysylltiadau ag Undeb y Myfyrwyr
- Hwyluso a chynorthwyo cymdeithasau i weithredu'n effeithiol a chynnal
- digwyddiadau, gan gynnwys cludiant priodol (e.e. bysiau mini), llety, trefnu
- ystafelloedd a.y.b.
- Cynnal cysylltiadau priodol â chyn-fyfyrwyr oedd yn perthyn i gymdeithasau

## 2. Partneriaeth Gymunedol a Digwyddiadau

- Rhyngolgapau Superteams, Rygbi 7-bob-ochr, Nôl i Aber, Rhaglas
- Gwobrau - cefnogi'r gydnabyddiaeth flynyddol o'r hyn mae cymdeithasau a myfyrwyr wedi'i gyflawni

## 3. Datblygu Arweinyddiaeth a Sgiliau

- Hyrwyddo cyfleoedd arwain i grwpiau gwirfoddol myfyrwyr fel rhywbeth sydd o fudd i yrfaeod ac i brofiad myfyrwyr
- Cynorthwyo cymdeithasau i ethol aelodaeth eu pwyllgor gan ddilyn polisiau UMAber
- Gyda chydweithwyr, datblygu a chynnal cynllun blynyddol ar gyfer hyfforddi arweinwyr cymdeithasau, er mwyn eu darparu â'r sgiliau ac adnoddau angenrheidiol i lwyddo yn eu rôl.
- Cynorthwyo swyddogion etholedig perthnasol i gynrychioli cyfleoedd myfyrwyr
- Gweinyddu a hwyluso mynediad i fysiau mini ar gyfer grwpiau cymunedol perthnasol

## 4. Dyletswyddau Eraill:

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisiau UMAber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill
- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

## Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deilydd y swydd. *Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.*

**MANYLEB Y PERSON - CYDLYNYDD DATBLYGU'R CYMDEITHASAU**

MEINI PRAWF	Angenrheidi ol	Cais	Cyfweliad Dydd
<b>CYMWYSTERAU</b>			
Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â 'Higher' neu Lefel A	Hanfodol	√	
Gradd Coleg / Prifysgol	Dymunol	√	
Cymhwyster mewn Rheoli Iechyd a Diogelwch	Dymunol	√	
<b>PROFIAD</b>			
Profiad o weithio'n effeithiol ar eich liwt eich hun	Hanfodol	√	√
Profiad o drefnu neu reoli digwyddiadau/prosiectau	Hanfodol	√	√
Profiad o weithio o fewn cyllideb benodol	Hanfodol	√	
Profiad o ddatblygu gweithgaredd yn un neu fwy o'r meysydd canlynol: Cynorthwyo a datblygu timau cymdethasau, grwpiau diddordeb neu wirfoddolwyr	Hanfodol	√	
Profiad o fod yn arweinydd grŵp myfyrwyr neu'n aelod o bwyllgor	Dymunol	√	√
Profiad o weithio mewn mudiad a arweinir yn ddemocrataidd	Dymunol	√	
Profiad o ddatblygu neu o gynnal hyfforddiant	Dymunol	√	
<b>GWYBODAETH</b>			
Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion a themâu cyfoes yn Addysg Uwch a'r materion sy'n effeithio ar fyfyrwyr, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chyfranogiad yn AU	Hanfodol	√	√
Gwybodaeth o arfer gorau o ran iechyd a diogelwch a rheoli risg	Hanfodol	√	
Gwybodaeth o hyfforddi/mentora technegau	Dymunol	√	√
<b>NODWEDDION/SGILIAU</b>			
Y gallu i roi grym i eraill a'u hysgogi nhw	Hanfodol	√	√
Gallu deall gweithio mewn mudiad allanol cymhleth	Hanfodol	√	
Y gallu i greu a chynnal perthynas weithio gref	Hanfodol	√	
Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm	Hanfodol	√	√
Meddu ar hunan-gymhelliant ac ymagwedd gadarnhaol at waith	Hanfodol		√
Personoliaeth bwylllog pan fyddwch dan bwysedd	Hanfodol		√
Y gallu i oresgyn rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol	Hanfodol	√	√
Cymwys gyda TG a dealltwriaeth weithio o Microsoft Office	Hanfodol	√	
Gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	√	
<b>GWERTHOEDD A MOESEG</b>			
Yr awydd i weithio mewn amgylchedd democrataidd dan arweiniad myfyrwyr	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal	Hanfodol	√	√
Yr awydd i weithio mewn amgylchedd sy'n gwasanaethu aelodaeth sy'n ddiwylliannol amrywiol	Hanfodol		√
Ymroddiad, agwedd gadarnhaol, allblyg ac agos-atoch, ynghyd â pharodrwydd i ymgymryd â thasgau	Hanfodol	√	√
Safonau uchel o ran gonestrwydd personol	Hanfodol		√